## CYNGOR CAERDYDD

COFNODION

## CYFARFOD Y CABINET: 28 MAWRTH 2018

| | |
|---|---|
| Aelodau Cabinet yn Bresennol: | Y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd)<br>Y Cynghorydd Peter Bradbury<br>Y Cynghorydd Susan Elsmore<br>Y Cynghorydd Graham Hinchey<br>Y Cynghorydd Sarah Merry<br>Y Cynghorydd Michael Michael<br>Y Cynghorydd Lynda Thorne<br>Y Cynghorydd Caro Wild |
| Gwylwyr: | Y Cynghorydd Joe Boyle<br>Y Cynghorydd Keith Parry<br>Y Cynghorydd Adrian Robson |
| Swyddogion: | Paul Orders, y Prif Weithredwr<br>Christine Salter, Swyddog Adran 151<br>Davina Fiore, Swyddog Monitro<br>Claire Deguara, Swyddfa'r Cabinet |
| Ymddiheuriadau: | Y Cynghorydd Russell Goodway<br>Y Cynghorydd Christopher Weaver |

**ANSAWDD AER - CYFARWYDDYD LLYWODRAETH CYMRU**

Yn dilyn derbyn cyfarwyddyd cyfreithiol gan Lywodraeth Cymru o'r enw "Deddf yr Amgylchedd 1995 (astudiaeth o ddichonoldeb ar gyfer Cydymffurfiaeth Nitrogen Deuocsid), Cyfarwyddyd Ansawdd yr Awyr 2018", derbyniodd y Cabinet adroddiad a oedd yn nodi manylion y cyfarwyddyd a'i oblygiadau ar gyfer Caerdydd. Yn atodol i'r adroddiad, roedd Papur Gwyrdd Trafnidiaeth ac Awyr Glân a gyhoeddwyd ar 21 Mawrth 2018. Mae'r Papur Gwyrdd yn nodi cyfres o opsiynau ar gyfer ymgynghori i fynd i'r afael â thagfeydd a gwella safon yr awyr.

PENDERFYNWYD:

1. cymeradwyo cynnal astudiaeth o ddichonoldeb yn ôl gofynion y cyfarwyddyd cyfreithiol gan Lywodraeth Cymru;

2. dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth ac Amgylchedd, mewn ymgynghoriad â'r Aelodau Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd a Chynllunio Strategol a Thrafnidiaeth i gychwyn caffael

ymgynghorydd arbenigol i lunio model manwl a chynorthwyo'r astudiaeth o ddichonoldeb, yn cynnwys cyflwyno dogfennaeth a thrin yn gyffredinol â'r holl agweddau ar y broses gaffael a materion ategol hyd at ac yn cynnwys cadarnhau'r contract;

3. nodi cyhoeddi'r Papur Gwyrdd Trafnidiaeth ac Awyr Glân a'i gyfeirio at y Cyngor Llawn i'r drafod.

**GORSAF FYSUS CAERDYDD CANOLOG**

***Ni fydd Atodiadau 1, 3, 4, a 5 yr adroddiad hwn yn cael eu cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i heithrio yn y disgrifiad a geir ym mharagraffau 14 a 21 rhannau 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

***Mae'r penderfyniad wedi ei ardystio gan y Swyddog Monitro yn un brys oherwydd gallai unrhyw oedi y byddai'r broses galw i mewn yn debygol o'i beri ragfarnu'r Cyngor ac mae er budd y cyhoedd dan adran 13 y Rheolau Gweithdrefnau Craffu ac nid yw'r weithdrefn galw i mewn yn berthnasol iddo.***

Derbyniodd y Cabinet adroddiad oedd yn rhoi newyddion diweddar ar y model ariannol a'r strategaeth gweithredu ar gyfer Datblygu Gorsaf Fysus Ganolog newydd. Bydd y cynllun diwygiedig yn rhoi gorsaf fysus 14 man aros ar y llawr gwaelod, a thua 10,000 tr sg o ofod masnachu cysylltiedig. Bydd y datblygiad masnachol oddi uchod yn cynnwys tua 300 o unedau preswyl y sector rhent preifat a thua 80,00 tr sg o ofod swyddfa Gradd A*.

**PENDERFYNWYD:**

(1) cymeradwyo cytundeb cydweithio Partneriaeth Darparu'r Metro mewn egwyddor, fel y nodir yn Atodiad Cyfrinachol 1 a dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu a'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformio, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i negodi a chadarnhau'r holl agweddau ar gytundeb terfynol gyda Llywodraeth Cymru a'r datblygwr er mwyn darparu'r Orsaf Fysus Ganolog newydd.

(2) cymeradwyo gwaredu ar y diddordeb prydles yn y tir a nodir yn goch a chaffael y tir a nodir yn las ar gynllun y safle sydd wedi ei atodi fel Atodiad 2 er mwyn cynorthwyo darparu'r Orsaf Fysus Ganolog ar yr amodau a nodir yn Atodiad Cyfrinachol 1 ac yn unol â'r prisiad annibynnol a geir yn Atodiad Cyfrinachol 4.